



PROSIECT: Delio â'r newid; o wartheg sugno i gynhyrchu eidion llaeth – Asesu gwerth slyri a gwrtaith

Negeseuon allweddol i fynd adref:

- Dangosodd y plot lle rhoddwyd gwrtaith mai gwrtaith oedd yn gyfrifol am y tyfiant glaswellt gorau ar 4,286 kgDM/ha.
- Roedd taenu gwrtaith yn sicrhau bod 1.7t/ha yn ychwanegol o ddeunydd sych (DM) yn cael ei dyfu o'i gymharu â'r plot cymharu na chafodd ddim triniaeth.
- Arweiniodd slyri wedi'i daenu ag esgid lusg (*trailing shoe*) at dwf glaswellt o 4,043 kgDM/ha, sy'n wahaniaeth o 1,438kgDM/ha o'i gymharu â'r plot cymharu.

Y problem:

Yn flaenorol, arferai Cefnllan redeg buches sugno draddodiadol, ond roedd Neil eisiau cynhyrchu mwy o gilogramau o gig eidion yr hectar ar system isel ei chost ar laswellt a gwneud y gorau o werth glaswellt er mwyn lleihau costau porthiant. Yn ogystal, roedd angen i'r fferm ddefnyddio mwy ar y gwyndynnydd glaswellt mwy newydd. Newidiodd Neil o fuches sugno i system eidion llaeth gyda phwyslais ar system bori cylchdro i ddefnyddio glaswellt i'r eithaf. Gyda'r cynnydd ym mhrys gwrtaith yn ystod y blynyddoedd diwethaf, y nod oedd cynyddu'r allbwn o'r adnoddau ar y fferm, a oedd yn cynnwys y slyri o'r fenter wartheg.

Diben y gwaith:

1. Nod y prosiect hwn oedd ymchwilio a chymharu gwahanol ddulliau o daenu slyri a chymharu tyfiant y glaswellt gyda slyri a gwrtaith.

Yr hyn a wnaethom:

Profwyd y pridd yn y cae sy'n oddeutu 4 erw ac fe'i rhannwyd yn 8 plot (tua 38 metr o led a hanner y cae o hyd) fel y gwelir yn ffigur 1.

38m	Gwrtaith	Gwrtaith - wedi'i awyru
	Plot cymharu	Plot cymharu - wedi'i awyru
	Slyri - plât tasgu	Slyri - plât tasgu - wedi'i awyru
	Slyri - esgid lusg	Slyri - esgid lusg - wedi'i awyru

Ffigur 1. Dyranid y plotiau yng nghae'r prosiect yng Nghefnllan.

Cafodd y storfa slyri ei chymysgu a chymerwyd samplau o'r slyri yn y storfa ar ddechrau Mawrth 2022 i roi gwerth dadansoddol o'r slyri a oedd yn y storfa ar y pryd er mwyn cymharu â'r gwrtaith a oedd i gael ei daenu. Cymerwyd sampl o'r slyri hefyd ar y diwmod y cafodd ei daenu ar ôl ei gymysgu. Cafodd y slyri ei daenu gyda thancer slyri Major ar gyfradd o 3,000 o alwyni yr erw, gydag esgid lusg a phlât tasgu. Y gwrtaith a ddefnyddiwyd oedd Yara Mila Actya S (16:15:15) ar gyfradd o 100kg yr erw. Cafodd hanner y cae ei drin ag aradr awyru. Ni chafodd y plot cymharu ddim gwrtaith na slyri. Cafodd y glaswellt ar y cae ei fesur ar y diwmod taenu ac yna ei fesur bob wythnos. Cwblhawyd dull torri a phwysu ar y diwmod y torwyd y cae ar gyfer silwair gyda'r silwair yn cael ei dorri bump wythnos a hanner ar ôl taenu'r slyri/gwrtaith.

Canlyniadau:

Penderfynwyd mesur y plotiau fel pedwar plot, a gweld a oedd unrhyw wahaniaeth gweledol rhwng y plotiau a gafodd eu hawyru a'r lleill. Ni welwyd dim gwahaniaethau gweledol. Roedd y gwrtaith a ddefnyddiwyd mor gyfartal â phosibl â'r ddau sampl slyri a gymerwyd o'r storfa slyri.

Mae mesuriadau'r glaswellt a gymerwyd gyda'r mesurydd porfa i'w gweld yn ffigur 2. Ar y diwrnod taenu ar 19 Ebrill 2022, mesurair glaswellt 2,090kgDM/ha. Ni chafwyd glaw yn ystod y ddwy wythnos gyntaf ar ôl taenu, gyda'r slyri i'w weld o hyd ar y glaswellt yn y plot plât tasgu am y ddwy wythnos gyntaf. Ni chafodd y fferm law, gyda gorsaf dywydd Neil yn dangos bod y fferm wedi cael 22.6mm o law yn ystod hanner cyntaf Mai.



LLEOLIAD: Llangammarch Wells



FFERM:

Sector: Cig Coch

Niferoedd stoc: Magu a phesgi 150 o wartheg bob blwyddyn a, 2,000 o famogiaid

Maint y fferm (ha): 105ha

Coetir (ha): 5ha

Cnydau a ha a dyfir: 30ha gwreiddlysiau ac 20ha haidd Cynlluniau rheoli tir: Glastir

Patrwm lloia/misoedd wyna: Wyna Chwefror i Ebrill

System bori: System bori cylchdro

Arallgyfeirio ac arloesi:

Sied slatiau ar gyfer wartheg, Defnyddio Agrinet (*meddalwedd rheoli glaswellt*), Defnyddio Farmax (*meddalwedd cymorth i wneud penderfyniadau*), Gorsaf dywydd

AMCANION Y FFERM

1

Cynyddu maint cynydu glaswellt blynyddol 33%

2

Cynyddu'r cynhyrchiant net (kg o gig eidion a gynhyrchir ar bob hectar) 50%

3


Cynyddu'r defnydd blynyddol ar laswellt 38%

4

Cynyddu'r cyfraddau pesgi i 1kg/dydd ar laswellt



PROSIECT: Delio â'r newid; o wartheg sugno i gynhyrchu eidion
llaeth – Asesu gwerth slyri a gwrtaith



Ffigwr 2. Mesuriadau glaswellt wythnosol y gwahanol blotiau.

Cwblhawyd dull torri a phwyso ar y plotiau ar y diwrnod torri, gyda gwahaniaeth aruthrol i'w weld rhwng y plot cymharu a'r plot gwrtaith, a'r plot cymharu a'r esgid lusg. Fel y gwelir yn ffigwr 2, yn y plot gwrtaith y gwelwyd y twf glaswellt mwyaf. Gwelwyd bod y glaswellt yn y plot esgid lusg yn fwy trwchus drwyddo na'r plot plât tasgu. Dangosodd y gwrtaith 4,286kgDM/ha gan roi 1.7t/ha yn fwy o DM o'i gymharu â'r plot cymharu, a dangosai'r plot esgid lusg 4,043kgDM/ha, sef gwahaniaeth o 1,438kgDM/ha o'i gymharu â'r plot cymharu. Gyda'r esgid lusg yn taenu'r slyri yn uniongyrchol ar y pridd, fe allai'r ffactor hyn fod wedi helpu â thwf y glaswellt, yn enwedig yn yr amodau sych a gafwyd yn ystod 2022.

Mae angen ystyried nifer o ffactorau, ac ymysg rhai o'r rhain y mae cost, argaeledd, tywydd, dull taenu ac iechyd y pridd.

Ymchwil ar waith/10 cam gweithredu ar gyfer eich fferm:

1. Deall gwerth slyri/tail y fferm i fenter eich fferm.
2. Sicrhau bod samplau slyri yn cael eu cymryd a'u dadansoddi bob blwyddyn.
3. Ystyried pa ddull o daenu slyri sy'n gweithio orau i'ch tir chi.